# Perthyn

*Cylchgrawn Capel y Morfa ac Ebeneser Penparcau*

Mehefin 2023 Rhifyn 317



Greawdwr ac Iachawdwr glân,
  doed tân dy Ysbryd eto,
fel ar y Sulgwyn cyntaf gynt
  yn nerthol wynt yn rhuthro.

Tyrd fel y daethost, Ysbryd gwâr,
  a daear Cymru’n lledfyw:
dy dân a’th wynt ar rymus daith
  yn ymlid anrhaith dilyw.

Gwynn ap Gwilym

## Gair gan Eifion

Khublei! cyfarchiad glywyd droeon yn y Morlan a'r Morfa'n ddiweddar. Ystyr khublei yw 'helo' neu 'sut ydach chi?' a'r rheswm tros ei ddefnyddio oedd ymweliad pedair gwraig a gŵr o Ogledd Ddwyrain yr India. Fel y gwyr nifer ohonoch, hyd ddiwedd y chwedegau roedd Bryniau Casia ynghyd â Mizoram a Sylhet Kachar, yn gymaint rhan o'n bywyd fel enwad. Efallai bod y cyfan yn anodd iawn i'w amgyffred heddiw, ac yn arbennig felly gyda'r ddealltwriaeth o genhadaeth eglwys bellach yn nhermau 'gwahoddiad' yn hytrach na 'gyrru allan', ond roedd sefydlu gwaith tramor yn rhan o fywyd a thystiolaeth enwad. O ganlyniad i ymdrechion unigolion argyhoeddiedig ac ymroddedig, sefydlwyd eglwys gref ynghyd â gwaith meddygol ac addysgol blaenllaw ac fel canlyniad, mae'r parch tuag at Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymru yn gyffredinol yn anhygoel. Yn ôl ystadegau 2018,





*Dinas brysur Shillong*

mae aelodaeth Synod Khasi Jaintia Sepngi yn 381,808 mewn 780 o gynulleidfaoedd a Synod Khasi Jaintia Mihgni yn 294,320 mewn 576 o gynulledifaoedd, yn cael eu gwasanaethu gan weinidogion a blaenoriaid ymroddedig. Mewn cymhariaeth, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru'n fach ac eto tydi hyn ddim wedi amharu dim ar y cariad a'r parch sydd gan bobl Bryniau Khasi tuag at ein gwlad a'n pobl.

Yn ddifyr iawn mae tirwedd y ddwy wlad yn debyg, gyda'u mynyddoedd a'u tywydd gwlyb, a bu hyn yn gymorth i'r cenhadon cyntaf setlo ac ymhen amser fe ddaeth Gogledd Ddwyrain yr India yn gartref newydd iddynt. Trwy eu gwasanaeth ymroddedig, a hynny yn aml iawn dan amgylchiadau anodd, sefydlwyd ysgolion ac ysbytai ynghyd â

chartrefi i blant amddifad heb angofio eglwysi ac Ysgolion Sul. Yn ddifyr iawn fe ges i fy ordeinio yn 1992 gan ddau feddyg! Dr Gwyn Rees Jones, Manceinion, oedd ar y pryd yn Lywydd Cymdeithasfa'r Gogledd a Dr Arthur Hughes, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, fu'n lawfeddyg yn Shillong, gŵr oedd yn cael ei adnabod fel 'Schweitzer yr India'.



Ymweliad 'ewyllys da' oedd ymweliad y cyfeillion o Shillong a thra'n mynychu'r Morlan a Chyfarfod Cenhadol Chwiorydd y De yn y Morfa, cafwyd cyfle i addoli a chymdeithasu. Mewn sgwrs bersonol, nodwyd bod gweddi tros eglwysi ein henwad yn rhan o ddefosiwn dyddiol y Synod a'r consyrn tros ein gwlad yn un llawn cariad a phryder Cristnogol. Ar nodyn positif, fel gyda phob ymweliad tebyg, roedd y pump wedi dotio at frwyfrydedd yr ychydig a'r holl waith sy'n digwydd yn lleol ac yn genedlaethol. Efallai ein bod yn fychan bellach rhan aelodaeth ond mae'r gwaith a'r dystiolaeth yn galonogol ac yn gyfrwng bendith i gymaint.

Y mae Sul olaf mis Mai yn Sul y Pentecost, yn dynodi tywalltiad yr Ysbryd Glân a'i effaith ar feddyliau a chalonnau dilynwyr cyntaf yr Iesu. Yn ein hatgoffa mai trwy nerth a chysur Duw yn unig y gallwn fyw ein bywydau fel unigolion a chynulleidfaoedd. Ond nid yn unig hynny, yn ddathliad sydd yn ein hatgoffa ein bod yn rhan o Eglwys fyd-eang, nid yn unig ein 'heglwys ni', a'r ddealltwriaeth ogoneddus yna o fod mewn cymundeb â Christ ac felly'n un â'n gilydd. Ac mewn byd rhwygedig a rhanedig mae angen hynny yn fyw na dim!

Khublei yn wir!

Eifion.

## Ymweliad cyfeillion o Shillong



Croesawyd pump ymwelydd o Shillong i'r Morlan ddydd Mercher 17 Mai, gyda chinio a sgwrs.  Roeddynt wedi gwirioni yn cael cyfarfod Margaret Jones, sy'n aelod yn Eglwys Dewi Sant gan iddi fod yn genhades yn Mizoram, flynyddoedd yn ôl.

Daethant i Aberystwyth o Goleg y Bala, ac Eirian Roberts, Sarah Morris, Gwenda Richards a Margaret Buckingham Jones ymhlith eraill yn gwmni iddynt.  Wedi cinio a sgwrs yn y Morlan, tywyswyd hwy o gylch Aberystwyth ac i'r Llyfrgell Genedlaethol gan Watcyn a Lowri James. Trannoeth roeddynt yn rhan o'r gynulleidfa yn y Sasiwn Genhadol, ac fe gyflwynodd y pump eitem gerddorol i'r Sasiwn.  Roeddent yn gwerthfawrogi'r croeso, a'r rhai a'u cyfarfu yn gwerthfawrogi eu hymroddiad a'u ffydd hwythau.

**Newyddion Perthyn**

***Cydymdeimlad***

Cydymdeimlwn â Phyllis Jones ar farwolaeth ei brawd, Mr. Richard Evans, Llanddewi Brefi.

Cydymdeimlwn â Mary Jones Morris sydd wedi colli ei chyfnither yn ddiweddar, sef Miss Susan Edwards.

Cydymdeimlwn hefyd â Dilys Lloyd sydd wedi colli ei chyfnither, Mrs. Mary Rees, Llanelli.

Cydymdeimlwn ag Elfed Jones sydd wedi colli ei frawd-yng-nghyfraith, Mr. Meurig Davies, Llwyncelyn

Cydymdeimlwn â Wil Griffiths sydd wedi colli ei chwaer Ann Evans, Blaenpennal.

Hefyd cydymdeimlwn â Glenys James sydd wedi colli perthynas agos, sef Mr. Richard Davies, Llanilar.

***Llongyfarchiadau***



Llongyfarchiadau i Arwel Rocet Jones ar ei lwyddiant yn ennill coron Eisteddfod Pantyfedwen ym Mhontrhydfendigaid.

Darllenwch y gerdd ar tud 12 a 13.







Llongyfarchiadau i'r plant, ieuenctid ac oedolion fu'n cystadlu ac a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Aberystwyth a gynhaliwyd yn Y Morlan.



Llongyfarchiadau i Owain Schiavone, y Cymro cyflymaf yn hanner marathon Caer ddiwedd Mai. Roedd Owain yn bymthegfed allan o ychydig dros bedair mil o redwyr, ac wedi cwblhau'r cwrs mewn awr a thri munud ar ddeg a hanner. Roedd y teulu yno i'w longyfarch.

Llongyfarchiadau hefyd i'r Parch John Roberts ar gael ei dderbyn i'r Orsedd er anrhydedd.

***Dymuniadau gorau***

Dymuniadau gorau i Ifor a Valmai Davies a fydd yn dathlu eu priodas aur ar Mehefin 16eg.

***Croeso Cynnes*** - Y Morlan bob dydd Mercher o 11 tan 2 o’r gloch.

***Llongyfarchiadau*** i Esther, Martha ac Emrys ar ddod i’r brig yn rownd derfynol y gystadleuaeth Her Deg Punt. Ysgol Penweddig oedd yr unig ysgol yng Nghymru i gyrraedd y tri safle uchaf. Dymuniadau gorau a diolch am ein helpu ni yn y Morlan.

***Diolch***

Diolch yn fawr i bawb gyfranodd at lwyddiant y Sasiwn Genhadol, a’r te rhwng y ddau gyfarfod. Diolch am y cyfraniadau hael o fwyd ac arian ac i bawb fu’n helpu – yn paratoi, yn gweini ac yn golchi llestri.

**Cinio Bara a Chaws dan nawdd Cymorth Cristnogol**

Bydd y cinio Bara a Chaws nesa’ yn cael ei gynnal yng nghartref gofal **Hafan y Waun, ddydd Llun, 5ed o Fehefin, o hanner dydd tan hanner awr wedi un o’r gloch.**

cymorth cristnogol

Dewch i gefnogi . . .Croeso cynnes i bawb!

**Perthyn**



Sara a John oedd yn gyfrifol am y rhifyn hwn o Perthyn. Eifion ac Alwen sydd yn golygu y rhifyn nesaf ym mis Gorffennaf, anfonwch unrhyw ddeunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn 19 Mehefin i ebost Eifion - eifionroberts095@btinternet.com



## Newyddion Ebeneser

**Cofion**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Cofiwn am y rhai mewn ysbyty neu gartref gofal, a'u teuluoedd hefyd.

**Gwasanaethau**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun o dan ofal ein Gweinidog, Y Parch. Eifion Roberts ar ddydd Sul. Mai 7fed a gwasanaeth o dan arweiniad Dr. Densil Morgan ar y trydydd Sul yn y mis sef Mai 21ain. Edrychwn ymlaen at y gwasanaeth nesaf a Chymun ar brynhawn Sul, Mehefin 4ydd am 2.15.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae wedi bod yn braf cael croesawu nifer o gyfeillion sydd wedi ymuno yn y gwasanaethau. Mae croeso cynnes bob amser yn Ebeneser.

**Cymdeithas Gweddi a Choffi –**

**bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom**

**Astudiaeth Ffydd a Phaned –**

**prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom**

## Hafan y Waun  ar werth




**Mae pryder am ddyfodol cartref gofal yn Aberystwyth wedi i'w berchnogion ei roi ar y farchnad.**

Yn dilyn adolygiad, fe gyhoeddodd Methodist Homes (MHA) fod cartref Hafan y Waun yn Waunfawr yn un o 10 cartref fydd yn cael eu gwerthu. Tra "nad yn benderfyniad hawdd", mewn datganiad dywed y cwmni fod "heriau gwirioneddol" o ran "sicrhau eu cynaliadwyedd parhaus".

Cafodd cartref Hafan y Waun ei agor yn 2007 ac mae'n darparu gofal ar gyfer 90 o drigolion gan arbenigo mewn gofal dementia. Mae'r cwmni wedi cydnabod nad oes modd diystyru'r posibilrwydd o gartrefi yn gorfod cau. Mewn ymateb dywedodd Cyngor Ceredigion eu bod yn gweithio gyda MHA gyda'r nod o sicrhau ei ddyfodol.

**'Fyddai'n ddiwedd y byd'**

Cyn gorfod symud i gartref arall am ei bod angen gofal nyrsio, bu Elizabeth Morris, o Lanystumdwy, yn cael gofal yn Hafan y Waun am oddeutu tair blynedd.

"Dwi erioed wedi gweld cartref tebyg," meddai ei merch Suki Morys wrth siarad â Cymru Fyw.

"Mae e yn arbenigo wrth gwrs mewn gofal i gleifion â dementia gan ddarparu therapi cerdd a garddio.

"Mae'r safon yn 5* - fe fyddai'n ddiwedd y byd yn yr ardal hon petai'n cau.
"Mae'n gwbl hanfodol i deuluoedd cleifion dementia - rhaid iddo gael ei achub."

**'Llawer o'r teuluoedd yn flin'**
I nifer mae'r newyddion yn sioc anferth.



"Drwy'r papur lleol ges i wybod," meddai Nerys Williams o Dregaron.
Mae ei thad, Alwyn Evans, 71, wedi bod yn cael gofal yno ers dwy flynedd.
"Mae llawer o'r teuluoedd yn flin i ddweud y gwir bo' nhw ddim wedi cael gwybod.
"Ni wir yn gobeithio y bydd y cartref yn aros ar agor. Mae'r gofal sydd yno yn dda ac wrth gwrs does yna ddim lle arall yn y sir sy'n derbyn cleifion gyda dementia.
"Byddai teithio i Lanymddyfri neu dros y ffin yn dipyn pellach ac wrth gwrs mae degau yn cael gofal arbenigol yn Hafan y Waun.
"Ry'n ni gyd wedi cael sioc o glywed y newyddion."

Mae BBC Cymru wedi gofyn i MHA ymateb i'r honiadau bod dim rhybudd wedi ei roi i deuluoedd preswylwyr. Mewn ymateb dywedon nhw "na fydd unrhyw newidiadau yn y ffordd mae'r cartref yn cael ei redeg". Dywedodd prif weithredwr y cwmni, Sam Monaghan, na allai ddiystyru'r posibilrwydd o gartrefi yn gorfod cau.
"Rydym wedi bod yn siarad ag arbenigwyr yn y marchnad gofal ac yn hyderus bydd prynwyr yn cael eu canfod ar gyfer y cartrefi hyn yn fuan," meddai.

"Pan ddarganfyddir prynwr, bydd y perchennog newydd yn cymryd cyfrifoldeb am y cartref, gan gynnwys preswylwyr a'r gweithwyr.
"Fodd bynnag, os yn y sefyllfa anffodus na ellir sicrhau prynwr, ni allaf ddiystyru'r posibilrwydd y bydd rhai yn cau.
"Rhagwelir, lle bo modd, y bydd y cartrefi yn dechrau trosglwyddo i berchnogion newydd erbyn dechrau 2024."
Dywedodd Aelod o'r Senedd Ceredigion, Elin Jones, fod penderfyniad MHA yn "galluogi'r Cyngor ac o bosib y bwrdd iechyd i allu ceisio sicrhau ei dyfodol i'r trigolion sydd yno yn barod, ac i ddarparu sylfaen ehangach ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol."
Dywedodd Cyngor Ceredigion fod trafodaethau eisoes yn mynd yn eu blaen.
"Mae MHA wedi cysylltu â'r cyngor ynghylch Hafan y Waun ac rydym yn llwyr ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â cholli cyfleuster mor bwysig yng ngogledd y sir," medd llefarydd.
"Fodd bynnag, mae'r cyngor yn gweld hyn fel cyfle i ddatblygu a gwella gwasanaethau allweddol yn y dyfodol.
"Rydym yn gweithio gyda MHA ar hyn o bryd i ddod o hyd i atebion tymor canolig i hir, gyda'r nod o sicrhau dyfodol y cartref."

**'Heb glywed dim'**

Dywedodd y cynghorydd sir lleol, John Roberts, fod y newydd wedi dod yn sioc i lawer o bobl yr ardal.
"Mi glywais y cyhoeddiad yr un amser â phawb arall," meddai wrth Cymru Fyw.



"Ges i gymaint o sioc pan glywais i, mae hwn yn un o'n cartrefi gorau... o'n i methu credu fe.
"'Wi ddim yn gwybod beth sy'n digwydd nawr... oeddwn yn gwybod fod nhw'n brin o staff ond mae pob man yn brin o staff y dyddiau hyn.

"O'n i yno y diwrnod agoron nhw fe ac oedd popeth yn *wonderful*, ond ers hynny mae 'na *manager* newydd bob blwyddyn a doeddwn methu deall pam fod nhw'n newid mor aml."
Ychwanegodd mai'r peth pwysig yw fod y cartref yn aros ar agor.
"Ma' fe'n ofnadw' i'r rhai sy'n gweithio yno wrth gwrs, ac yn broblem hefyd i'r rhai gyda teuluoedd yno, mae Hafan y Waun wedi bod yn llawn.
"'Da ni wedi colli Bodlondeb yn barod, odd pawb yn 'itha grac am hynny.
"Bydd rhaid cadw fe ar agor rhyw ffordd, falle fydd cwmni arall â diddordeb.
"Mae'r teuluoedd a'r staff angen sefydlogrwydd. Mae angen gwybod fod y pobl yn saff, ond ni'n dal i aros am nawr."
Fis Mai y llynedd cyhoeddwyd bod cartref arall yn yr ardal yn cau sef Cartref Nyrsio Abermad.

*Erthygl a gyhoeddwyd yn BBC Cymru Fyw*

## Pererin

***Cerdd y goron Eisteddfod Pontrhydfendigaid 2023***

milltir
a mymryn
yn rhimyn
rhwng
heddiw
ddoe
a fory

rhwydi’n
llawn ... a llipa
yn llawn ... a llipa
yn dal
i fethu
a dal
y llanw

dwy wylan
yn bigitan
dros frechdan
ffres

meini chwâl
a bylchau?
neu furiau a saif
yn y cof?

a’r môr
yn dyst

hen gragen
o goleg
a’i chlust
wastad yn llawn
o lanw gwanwynol

a gronynnau
o las-freuddwydion

a'r môr
yn tynnu

curiad cyflym y golau'n
curo'r ffenest
a chysgodion chwil
yn gwau drwy'i gilydd
fel drudwns

a'r môr
yn dawnsio

ôl dau bâr
o draed
ar draeth llonydd
yn plethu
fel pwythau
ar gynfas glân
y wawr

a'r môr
yn cadw'i bellter

gŵr
a'i fraich am gefn
mainc
weddw

a'r môr
mor, mor, llwyd

meri-go-rwond - mamau a
phlant - (inflatable) - a
phlatiad o chips - (i'r
wylan) - hufen ia - (rhy
fawr) - beicars a byscars –
Hell's Angels, - efengyls -
Iddewon a meddwon a
mulod yn mynd a dod, yn
mynd a dod ...

a'r môr
yn gwenu

bag byw am byth
yn llawn popeth
rhywun
wedi ei adael
yn y ffydd
y bydd o yno
eto
heno

a'r môr
yn blanced
bell

milltir
a mymryn
cic
a chic
yn plicio
archeoleg paent

a'r môr
yn dangos ei ddannedd

*Arwel Rocet*

## Pentecost – tafodau dieithr



Nid oes gan y ffydd Gristnogol iaith sanctaidd, ond ers dydd y Pentecost yn Jerwsalem a gofnodwyd yn llyfr yr Actau, mae Cristnogion wedi dathlu y gellir clywed yr Efengyl mewn llawer o ieithoedd lleol gwahanol, yn yr ieithoedd rydyn ni'n eu dysgu gan ein rhieni ac o fewn y cymunedau sy'n ein ffurfio. Y mae ffydd Gristnogol yn cael ei byw, ei siarad a'i chyhoeddi orau yn iaith ein calon.

Heddiw, mae gan yr eglwys ledled y byd, lawer o ieithoedd lleol, sy'n adlewyrchu'r neges. Mae amrywiaeth ieithyddol yr Eglwys, a'i hamrywiaeth mewn cymaint o ffyrdd eraill, yn eang. Ac, ar yr un pryd, mae undod yr Eglwys yn ddwfn, wedi'i wreiddio yn yr un Ysbryd Glân. Y wyrth yw y gall amrywiaeth gyfoethog ac undod cariadus ddal dwylo. Mae hyn yn rhodd yr Ysbryd. Ac mae'n un y mae ein byd rhanedig wir ei angen.

Mae amrywiaeth yn rhodd yr Ysbryd, wrth wasanaethu undod, y Pentecost hwn, gadewch i ni ddathlu amrywiaeth yr Eglwys, y byd a'r holl greadigaeth, a hefyd ddathlu sancteiddrwydd yr Ysbryd sy'n ein gwneud ni'n un.

*Neges Llywyddion Cyngor Eglwysi'r Byd ar gyfer y Pentecost*

## Sasiwn Genhadol y De



Capel y Morfa oedd yn croesawu Sasiwn Genhadol y De eleni, a daeth tyrfa dda i wrando ar y ddau siaradwr ddydd Iau, 18 Mai. Roedd hi'n haul cynnes a hynny yn rhoi pawb mewn hwyliau da. Yn ystod y cyfarfod prynhawn cafodd Eleri Davies ei sefydlu yn Llywydd y Sasiwn am eleni, ac yr oedd cynulleidfa'r Morfa yn falch iawn o'i gweld yn cael parch haeddiannol. Go brin y gellid cael neb mor egnïol i ddenu cynulleidfa iau, yn enwedig plant, i'r capel. Dymunwn yn dda iddi yn ystod ei llywyddiaeth.




Daeth cynulleidfai Gapel y Morfa i wrando ar Mererid Mair Williams, Caernarfon yn y prynhawn ac Arfon Jones, Caerdydd (Arfon Beibl.net) gyda'r nos. Cafwyd dwy anerchiad rymus ac addas i'r digwyddiad. Yr angen i fod yn obeithiol. waeth pa mor dywyll yr amgylchiadau, oedd prif neges Mererid. Daw y gobaith hwnnw o ddeall sut mae'r Iesu yn trin pobl. Cymerodd y wraig o Samaria a Mair Magdalen fel dwy engraifft o'r Iesu yn closio at bobl yn bersonol, ac yn eu cyfarch gan ddelio gyda'u hofnau a'u pryderon. Daw gobaith o sylweddoli fod Iesu yn ein deall ac yn fodlon

dod atom. Cyfeiriodd hefyd at y ffordd y mae wedi profi hynny yn ei gwaith yn eglwys Noddfa yng Nghaernarfon a sut y mae eraill wedi cydio yn y gobaith sydd yng nghwmni Iesu.

Aeth Arfon Jones â'r gynulleidfa i gyfeiriad digon tebyg gan iddo yntau ddechrau gyda'r tristwch, yr ansicrwydd a'r ofn sydd yn nodweddu



eglwys Iesu Grist yng Nghymru heddiw. Ond drwy'r hanes am Mair a Martha dangosodd bwysigrwydd deall ein ffydd. Yn aml y mae'r ddwy chwaer wedi eu gosod fel dau begwn, un yn myfyrio wrth draed yr Iesu a'r llall yn ymarferol a gweithredol. Ond pwysleisiodd Arfon fod Martha hithau wedi dysgu gan yr Iesu a'i bod hithau yr un mor barod a'i chwaer i ddod i adnabod ei gwaredwr a threulio amser yn myfyrio arno. Mae hithau yn gweld ei gobaith yng nghwmni'r Iesu. Heriodd y gynulleidfa wedyn i rannu ffydd a chynnig gobaith i bobl o'n cwmpas.

Yn ystod cyfarfod yr hwyr roedd y gynulleidfa wrth eu bodd yn cael gwrando ar eitem gerddorol gan yr ymwelwyr o Shillong a hwythau hefyd yn ymhyfrydu yn y ffydd a rannwyd gyda hwy drwy'r cenhadon. Yn ystod y dydd cyflwynwyd arian casgliad cenhadol sasiwn y De i Nan Wyn Powell Davies a diolchodd hithau am waith ac ymroddiad aelodau'r Sasiwn.

Roedd gwledd wedi ei pharatoi yn y festri rhwng y ddau gyfarfod a chafwyd amser da a buddiol wrth y byrddau. Diolch i bawb am eu gwaith yn paratoi. Bu'n Sasiwn i'w chofio.

## **Pentecost – fflamau megis o dân.**

Mae 'na ddirgelwch yn Nuw nad ydi ein geiriau byth yn medru ei ddal, dyna pam fod y Gair wedi dod yn gnawd, er mwyn i ni allu dirnad sut un ydi o. Felly pan ydan ni yn sôn am yr Ysbryd Glân rydan ni yn ôl yn ymlafnio efo geiriau. Pan ddaeth yr Ysbryd ar y Pentecost fe ymddangosodd "fel tafodau o dân", hynny yw nid fflamau ond rhywbeth tebyg i fflamau. Roedd 'na ddirgelwch yn ei ymddangosiad.




Mae'r syniad o fflamau yn brofiad cyffredin, fel dywedodd y ddau yn Emaus wedi iddyn nhw adnabod yr Iesu - "onid oedd ein calonnau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni". Felly mae'r syniad o fflamau tân yn cynrychioli gwres ac angerdd trawiadol. "Dyn fel mewn twym ias" - dyna sut y disgrifiwyd Howel Harris gan William Williams Pantycelyn. Efallai bod angen i'r Ysbryd ddeffro yr un angerdd ynom ni.

Wrth gwrs mae tân yn cynnig cysur yn ogystal ag angerdd grymus. Yn yr un ffordd y mae'r Ysbryd Glân yn cynnig cysur i bobl Dduw. Roedd yr Iesu wedi dweud na fyddai yn gadael ei ddisgyblion ar eu pen eu hunain, byddai yn anfon yr Eiriolwr arall, y cysurwr arall. Trwy yr Ysbryd gwyddent fod Duw gyda hwy, yn gofalu amdanynt ac yn eu harwain a'u nerthu. Roedd presenoldeb tyner ei gariad yn eu cysuro ac yn cynnig sicrwydd. Wrth ddathlu'r Pentecost rydan ni yn sicr eisiau'r cysur hwnnw.

Roedd tân hefyd yn cynnig goleuni wrth gwrs, wedi'r cyfan Ysbryd Crist yw'r Ysbryd Glân, a chan fod Iesu yn oleuni'r byd, felly hefyd yr Ysbryd Glân. Mae Salm 119 yn dweud wrthym y bydd y Gair, fel y Gair a wnaethpwyd yn gnawd yn llewyrch i'n llwybr, yn oleuni i'n tywys i'r cyfeiriad iawn. Mewn dyddiau tywyll fel ein dyddiau ni rydym angen goleuni fflam y Pentecost i'n tywys.

## Yr Ysgol Sul

Ar fore Sul, Mai 7fed cawsom gyfle i ymuno ag Ysgolion Sul yr ardal yn y Gymanfa Ganu yn Seion a chyflwyno'r emyn Cân y Beibl – y geiriau gan Arwel Rocet a'r gerddoriaeth gan Bethan Bryn. Cafwyd gwasanaeth o fawl o dan arweiniad hwyliog Efan Williams. Cyflwynwyd yr emynau gan Ysgolion Sul yr ardal a chafwyd neges berthnasol gan y Parch Gwilym Tudur.

Cynhaliwyd Llanllanast y Pentecost ar ddydd Sul Mai 21ain a phawb yn mwynhau'r gweithgareddau parasiwt a chrefftau amrywiol yn gysylltiedig â hanes y Pentecost a dyfodiad Yr Ysbryd Glân.









## Pentecost – fel gwynt nerthol yn chwythu

Unwaith eto mae'r hanes yn Actau 2 yn pwysleisio nad yw ein geiriau yn gallu portreadu dyfodiad yr Ysbryd Glân yn gwbl glir, fe ddaeth sŵn o'r nef **fel** gwynt nerthol yn rhuthro. Y mae'r darlun hwn wedi cydio yn yr emynwyr a rydym yn canu am yr Iôr yn rhwygo'r nefoedd, y gwyntoedd cryfion ddeffry'r meirw yn y glyn, neu y nefol wynt all

> ... siglo muriau'r tŷ
>
> A phlygu dynion cry'.

Ond y mae hefyd yn awel gref, a ddaw i'r dyffryn "lle rŷm fel esgyrn gwyw", ac mae'n awel gref "i godi f'ysbryd egwan, o'r ddaear hyd y nef".

Mae't gwynt nerthol felly yn gallu chwalu a dinistrio yr hyn sydd yn groes i fwriadau ac ewyllys Duw, mae'n sgubo pethau o'i flaen. Dyma'r Ysbryd radical sydd yn trawsnewid pobl a phethau, fel y trawsnewidiodd Pedr a'r disgyblion gan eu gwneud yn barod i sefyll a phregethu o flaen y bobl y bu'n cloi'r drws rhagddynt. Efallai ein bod angen corwyntoedd yr Ysbryd yn ein capeli a'n heglwysi y dyddiau hyn i'n trawsnewid yn hytrach na'n bod yn "cadw'r drws yn agored tra byddaf i." Ym Men Llŷn roedd gwynt cyson yn plygu'r coed a'r llwyni – boed i Ysbryd Crist ein plygu ninnau.



Ond mae'n awel gref hefyd, yr awel y byddai morwyr yn ei mwynhau, awel fydd yn ein gyrru ar ein ffordd. Fe yrrodd Paul a'r apostolion eraill ar eu ffyrdd a gall ein gyrru ninnau nid yn unig i gyhoeddi cariad Crist ond hefyd i alw am gyfiawnder Crist yn y byd, fel y delo ei deyrnas Ef.

## Suliau mis Mehefin

**Blaenor y mis**:  Gwerfyl Pierce Jones

4 Mehefin – Eifion Roberts (Cymun)

11 Mehefin – John Roberts

18 Mehefin – Eifion Roberts

25 Mehefin – Gwenda Richards, Caernarfon

**Blodau**

4 Mehefin – Glenys James

11 Mehefin –

18 Mehefin – Ifor a Valmai

25 Mehefin –

## Gweddi ar gyfer Pentecost



Ein rhiant yn y nefoedd, tyrd atom drwy Ysbryd Crist, tania ynom **dân angerddol** o gariad at Iesu ac awydd aniffoddadwy i wasanaethu pobl o'n cwmpas, a chynnig dy gariad iddynt. Chwyth arnom **fel gwynt nerthol** i'n plygu, i'n siapio wrth dy fodd, ac i chwalu pob rhwystr sydd ynom ac sydd gennym all atal dy waith Di a dyfodiad dy deyrnas.  Dyro i ni hefyd wres cynnes dy gariad ac awel dyner dy arweiniad fel y gosodir ein traed ar lwybrau dy gariad, dy drugaredd, dy gyfiawnder a dy lawenydd Di.  A dyro i ni eiriau mawl yn ein h**iaith**, iaith ein calon fel y gall y Gymraeg fod yn iaith mawl ac addoliad i Ti.  Amen